## Atodiad 1

## Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – gweithredoedd Blwyddyn 2 y Cynllun Gweithredu

### Cynllunio a chyflawni gwasanaethau

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A4 | 5.1 | Gosod dangosyddion perfformiad gyda thrydydd partïon a monitro cynnydd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r cynllun. | Rheolwr prosiect | Rydym wedi cychwyn gweithio gyda thrydydd parti i'n cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, mae hyn yn cynnwys dangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd. |

### Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A12 | 9.1 | Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a rhoi gwybod i'r rheini sy'n mynychu y croesewir y defnydd o'r Gymraeg yn y digwyddiad. | Tîm cyfathrebu â chwmnïau | Mae gennym broses mewn lle i gyrraedd y gofyniad, fodd bynnag, ni gynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. |
| A13 | 9.1 | Sicrhau y trefnir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. | Tîm cyfathrebu â chwmnïau | Fel yr uchod, mae proses mewn lle, fodd bynnag, ni gynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. |
| A14 | 11.2 | Anfon gwahoddiadau dwyieithog i seminarau, cyrsiau hyfforddiant neu ddigwyddiadau tebyg a gynhelir i'r cyhoedd yng Nghymru, gan roi gwybod i'r gwahoddedigion y croesewir y defnydd o'r Gymraeg os yw hynny'n briodol. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael. | Tîm cyfathrebu â chwmnïau | Fel yr uchod, mae proses mewn lle, fodd bynnag, ni gynhaliwyd unrhyw seminar, cwrs hyfforddi neu debyg yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. |

**Ein Hwyneb Cyhoeddus**

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A15 | 12.5 | Pan fyddwn yn sefydlu llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. | Ymgyrchoedd | Ni sefydlwyd unrhyw linellau ymateb dros y ffôn yng Nghymru, fodd bynnag, mae'r FCA wedi darparu blwch post (cymraeg@fca.org.uk) ar gyfer ymholiadau yn y Gymraeg, byddwn yn ei restru fel y cyswllt ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd yng Nghymru yn y dyfodol. |

**Gweithredu'r cynllun**

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A30 | 24.3 | Sicrhau bod gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn, fel sy'n briodol. | Cyfathrebu | Adroddiad wedi'i gynhyrchu ar gyfer Penaethiaid Adran ac uwch reolwyr. |